COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGWM  22ain Ionawr 2025

.

PRESENNOL – Gwyn Davies. Alun Jones, Gwynfryn Jones, Sioned Jones, Glennydd Evans, Carwyn EdwardsAwel Hughes (Cadeirydd) Rhian Ellis (Clerc) Cyng. Gwennol Ellis.

Cydymdeimlwyd gyda Gwynfryn Jones a theulu ‘Rhafod wedi iddynt golli Mrs Eirwen Jones a oedd yn aelod gwerthfawr iawn yn y gymuned.

1.YMDDIHEURIADAU –  Llyr Jones

2. DATGAN BUDDIANNAU – DIM

3. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF –  Cynigwyd yn gywir gan Gwyn Davies ac eilwyd gan Gwynfryn Jones

4. MATERION YN CODI O’R COFNODION –  .

Torri coed yr Eglwys – Angen pris arall I dorri’r coed, Alun am gysylltu.

Sgips – Y Clerc I drefnu sgips I ddod eto diwedd Chwefror.

Y Clerc I anfon llythyr I ddiolch I Rory Jackson a  Michael Griffiths am y rhodd o goeden Nadolig I Dinmael a Llangwm.

5. CYLLIDEB  -  Yn y Banc 28.02.25 £12,282.76

Gwariant hyd yma Nant Fach - £2242.00

6. TALIADAU -  Cynigwyd talu yr isod gan Glennydd Evans ac eilwyd gan Alun

| | | |
|---|---|---|
| Lelo Sgips | s19 | £312.00 |
| I N Ferguson  Gwefan | s143 | £76.79 |
| Sioned Jones Goleuadau | s137 | £34.97 |

7. NEUADD FACH -    Angen Rhestu yr adeilad Awel Hughes yn mynd I wneud y gwaith yma yna symud I ddiweddaru yr Ymddiriedolwyr a cael cyfansoddiad newydd.

8.CAEAU CHWARAE DINMAEL –  Angen cael y les yn I le a gofyn I Cyng. Gwennol Ellis I  rhoi cwyn am safon y Parc. Nid yw gwair y parc yn cael ei dorri yn rheolaidd.

9.  CYNLLUNIO  –        DIM

10. GOHEBIAETH yn gofyn am gyfraniad ariannol gan

Llen y Llannau - £50.00

Sioe Gwn Rhyngwladol £50.00

Ambiwlans Awyr Cymru £200.00

11. UNRHYW FATER ARALL

PRECEPT – Penderfynwyd codi y precept I £5,410

ADRODDIAD AWDIT 2023/24 – Derbynwyd gan yr holl bwyllgor

DYDDIAD CYFARFOD NESA

NOS Fawrth  25.03.25 am 8.00 o’r gloch.